



Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai 2020-2021



Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	2
2	Ymateb i bandemig Covid-19 2020/21	4
3	Y blaenoriaethau ar gyfer 2020/21	10
4	Edrych i'r Dyfodol: y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22	13
5	Casgliad	14

Hoffwn ddechrau Adroddiad Blynyddol 2020/21 trwy dalu teyrnged i'r holl staff yn y Fwrdeistref Sirol sydd wedi chwarae rhan mewn darparu Gwasanaethau Cymdeithasol, boed yn weithwyr i'r Cyngor neu'n staff a gyflogir gan ein partneriaid yn y sector annibynnol neu'r trydydd sector. Mae'r staff wedi dangos hyblygrwydd mawr wrth newid rolau ac ymateb i anghenion rhai o aelodau mwyaf bregus y gymuned. Gŵyr pawb fod gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru wedi wynebu heriau digynsail yn sgil pandemig y Coronafeirws ac roedd hynny yr un mor wir yn achos y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerffili.

Mae'n anorffod fod y Gyfarwyddiaeth, wrth ymateb i'r argyfwng, wedi gorfod edrych ar y ffordd y mae'n cyflwyno gwasanaethau ac yn defnyddio'i hadnoddau. Bu'n rhaid atal rhai gwasanaethau dros dro, adleoli staff i feysydd gwaith newydd ac ailgyfeirio adnoddau er mwyn delio â blaenoriaethau a oedd yn aml yn dod i'r golwg dros nos.

Rwy'n cydnabod yn llwyr fod rhai o'r newidiadau hyn wedi cael, ac yn dal i gael effaith ar y bobl sy'n cael gwasanaethau gennym a'u gofalyddion. Wrth i ni barhau i ailgyflwyno gwasanaethau, mae'n bwysig manteisio ar bob cyfle i ddysgu gwersi a moderneiddio gwasanaethau er mwyn sicrhau y byddant yn gynaliadwy ar hyd y blynyddoedd nesaf sy'n mynd i fod yn heriol iawn i bawb sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

Bu'n rhaid i'n staff weithio'n agos iawn gyda'n partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn y gwasanaethau Addysg, Tai, y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Y gobaith, wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn, yw ein bod ni'n dechrau gweld pawb yn symud tuag at lwybr adferiad ac wrth i ni groesawu hynny yn amlwg, mae'n glir y bydd

yr effaith ar y ffordd y darperir gwasanaethau yn cael ei theimlo am flynyddoedd i ddod. Dysgwyd gwersi pwysig yn sgil y pandemig, rhai cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol ac wrth i ni gamu ymlaen bydd angen i ni ystyried ffyrdd gwahanol o gyflwyno gwasanaethau angenrheidiol wrth i bobl ddod i delerau â chanlyniad y pandemig.

O ganlyniad, mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2020/21 yn edrych yn wahanol i'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn y gorffennol. Eleni, mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y bu'r Gyfarwyddiaeth yn ymateb i'r pandemig er mwyn sicrhau bod modd parhau i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen allweddol i gynorthwyo ein plant a'n hoedolion mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, fe welwch hefyd gyfeiriadau at y cynnydd a wnaed o ran rhai o'n blaenoriaethau allweddol eraill ac mae'n glod mawr i'r staff a oedd yn ymwneud â'r blaenoriaethau hyn fod cynnydd wedi'i wneud ar yr un pryd â'r ymateb i heriau'r pandemig.


Mae'n bwysig nodi hefyd fod y broses genedlaethol o adrodd ar berfformiad wedi'i hatal am flwyddyn oherwydd trefniadau Llywodraeth Cymru i roi Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol newydd ar waith.

I grynhoi, mae Adroddiad Blynyddol 2020/21 yn amlygu'r meysydd allweddol y bu'n rhaid i'r Gyfarwyddiaeth ymateb iddynt yn ystod y pandemig yn ogystal â nodi'r camau y cytunwyd yn flaenorol i'w cymryd yn ystod y flwyddyn a'r blaenoriaethau newydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt wrth i ni gamu ymlaen.

D.M. Street

Dave Street

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai



2

Ymateb i bandemig Covid-19 2020/21

Y Gweithlu

O ganlyniad i ganllawiau'r cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid cau'r canolfannau dydd ac ailgyfeirio staff y canolfannau dydd i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn neu i gartrefi byw â chymorth. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y mwyafrif o'r bobl a oedd yn mynychu'r gwasanaethau dydd hefyd yn perthyn i'r categori gwarchod ond yr oedd hefyd yn rhan o'n cynllun wrth gefn petai nifer mawr o staff yn cael eu colli o wasanaethau rheng flaen allweddol oherwydd y pandemig. Bu'r ailgyfeirio cynnar yn fodd i'r staff hynny ddod i ddeall y maes gwasanaeth a meithrin cysylltiadau â phobl.

Ailgyfeiriwyd staff hefyd i'r gwasanaeth Tracio/Olrhain/Diogelu a'r Cynllun Cyfeillio os nad oedd modd iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau arferol.

Bu cymorth i'r staff yn allweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth i alluogi staff i weithio gartref ac wedi mynd ati i annog staff i weithio'n hyblyg. Bob wythnos, anfonir gwybodaeth at y staff am y gwasanaethau cymorth llesiant sydd ar gael iddynt.



Cynorthwyo'r Sector Annibynnol

Un o'r anawsterau cychwynnol cynnar a ddaeth i'r golwg oedd y ddarpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol. Ar y dechrau, roedd cyflenwadau'n dameidiog a bu'n anodd sicrhau cyflenwadau digonol o ran maint ac ansawdd ar adegau. Carwn ddiolch i staff tîm Caffael yr awdurdod am ein helpu trwy'r cyfnodau anodd. Roedd yn rhyddhad mawr bod cyflenwadau wedi aros yn gadarn, ar ôl yr heriau cychwynnol, ac i ddarlunio graddfa'r dasg, mae'r awdurdod bellach wedi dosbarthu ychydig dros 10 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol ar draws y sector.

Ar ddechrau'r pandemig, penderfynodd y Gyfarwyddiaeth y byddem yn talu dau fis ymlaen llaw i'n holl ddarparwyr yn y sector annibynnol fel taliad wrth gefn rhag i broblemau godi gyda'r systemau taliadau ariannol. Yn achos darparwyr gofal cartref, roedd y taliad yn seiliedig ar y gwaith a gynlluniwyd.

Fel y dywedwyd eisoes, mae ymroddiad staff y Gyfarwyddiaeth a staff ein partneriaid yn y sector annibynnol a'r trydydd sector wedi bod yn eithriadol ar hyd y pandemig.

Mae staff o'n Tîm Contractau a Chomisiynu wedi mynd ati i alw darparwyr yn wythnosol i gynnig cymorth o ran sicrhau eu bod yn deall y newidiadau rheolaidd i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru. Maent wedi gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i lunio adroddiadau wythnosol ar y sefyllfa, helpu cartrefi i recriwtio staff asiantaeth pan oedd angen a rhannu arferion da.



Buom yn gweithio'n galed gyda'r sector a'r Bwrdd Iechyd i roi trefniadau profi ar waith ar draws lleoliadau caeedig, gan ddarparu staff i ddosbarthu a chasglu'r swabiau er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i amddiffyn staff, preswylwyr agored i niwed, a phlant, lle'r oedd hynny'n briodol.

Yn yr holl Gartrefi Gofal i Bobl Hŷn yn y Fwrdeistref, mae'r preswylwyr a'r staff sydd wedi cydsynio i gael eu brechu wedi cael y ddau ddos.

Buom yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i nodi a brechu'r holl staff gofal rheng flaen yn unol â chanllawiau'r JVIC yng nghyswllt Grŵp Blaenoriaeth 1, i'w galluogi nhw i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl agored i niwed.

Cadernid y Gwasanaeth

Fel y mwyafrif o Gyngorau Cymru, mae CBS Caerffili yn ddibynnol iawn ar ein partneriaid yn y sector annibynnol. Ar hyn o bryd, comisiynir rhyw 70% o'n gwasanaethau gofal preswyl a gofal cartref o'r sector annibynnol gyda'r awdurdod ei hun yn darparu'r 30% sy'n weddill.

Fel pob busnes ar draws y sector preifat, mae darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn ystod y pandemig. Yn ogystal â chostau staffio ychwanegol, mae'r gostyngiad yn nifer y preswylwyr a dderbynnir i gartrefi a'r golled sylweddol mewn incwm yn sgil hynny wedi cael effaith fawr ar gartrefi.

I gynnig cymorth i ddarparwyr â'r heriau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud taliadau o "Gronfa Galedi", sef £50 y lle yr wythnos mewn cartrefi gofal a £1 yr awr yn ychwanegol i ddarparwyr gofal cartref. Bydd y cyllid hwn yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol, ond mae pryder bod y sefyllfa yn 2021/22 yn aneglur.

Ar hyn o bryd, mae'n aneglur beth fydd effaith y pandemig ar y galw am rai gwasanaethau. Gwyddom fod nifer o bobl sydd wedi cael cymorth yn y gymuned yn hytrach na mynd i ganolfannau dydd yn dymuno parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Yn yr un modd, nid oes modd rhag-weld y galw am ofal preswyl a gofal nyrsio yn y dyfodol. Bydd angen monitro'r sefyllfa hon yn ofalus ond mae'n amlwg y bydd cyfleoedd i ail-lunio gwasanaethau i fodloni'r galw tebygol yn y dyfodol. Wrth reswm, caiff unrhyw gynigion ail-lunio eu rhoi gerbron y Pwyllgor Craffu yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol

Fe'n gorfodwyd gan y pandemig i ailfeddwl ynghylch ein dulliau o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Gan weithio gyda chydweithwyr ledled ardal Gwent, cytunodd y pum awdurdod lleol ar Ganllawiau Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion.


Yn y Gwasanaethau Plant, blaenoriaethwyd pob atgyfeiriad ar sail pryderon ac ymchwiliadau diogelu, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant sy'n wynebu 'risg gofal' uniongyrchol. Pennwyd risg pob achos gan ddefnyddio system Coch/Oren/Gwyrdd wedi'i hawdurdodi gan y Rheolwyr Tîm a bu Rheolwyr Gwasanaethau yn adolygu'r penderfyniadau hyn yn rheolaidd.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, pryderon ac ymchwiliadau diogelu, methiant gofalwyr, ac oedolion mewn perygl uniongyrchol oedd y blaenoriaethau.

Ar draws y gwasanaeth cyfan, rydym wedi mabwysiadu dull brysbennu cyn pob ymweliad, gan gysylltu â theuluoedd a defnyddwyr gwasanaethau i wirio a oes rhywun yn y cartref wedi dal Covid neu'n hunanynysu, cynllunio i reoli'r ymweliad a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chyngor lechyd Cyhoeddus ynghylch cadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd/trafodaethau rhithwir lle'r oedd hynny'n ymarferol ac yn y Gwasanaethau Plant roedd pob ymddangosiad





llys yn rhithwir gan ddefnyddio cynadledda ffôn neu fideogynadledda gyda rhai gwrandawiadau cynhennus yn cael eu gohirio.

Mae'r gwaith Cyfraith Gyhoeddus yn ôl ar y trywydd iawn ac yn defnyddio dulliau rhithwir. Mae'r holl achosion llys i oedolion yng nghyswllt trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a cheisiadau am bennu dirprwy wedi bod yn rhai rhithwir.

Yn y Gwasanaethau Plant, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau yn ystod dwy neu dair wythnos gyntaf y cyfnod clo cychwynnol cyn dringo'n ôl i'r lefel arferol (o un flwyddyn i'r llall) yn fuan iawn. Gwelwyd cynnydd sydyn mewn atgyfeiriadau ym mis Medi pan ddechreuwyd agor yr ysgolion a disgwylir gweld yr un peth yn digwydd eto wrth i'r cyfyngiadau ddechrau llacio.



Mae'n bwysig cydnabod bod y Gyfarwyddiaeth, yn ystod y gwahanol gyfnodau clo, wedi gallu cynnal Amser Teulu (cyswllt) rhwng plant mewn gofal a'u rhieni. Ar adegau, bu'n rhaid cyfyngu hyn i blant dan 2 oed ac unrhyw blentyn oedd yn destun gorchymyn llys ond mae pob teulu yn cael rhyw fath o gyswllt. Lle bydd modd, cefnogir cyswllt yn yr awyr agored ac os na fydd hynny'n bosibl, fe'i darperir o dan do gan gadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol fel sy'n briodol.

Cymorth i Ofalyddion

Ar ddechrau'r pandemig, penderfynodd y Gyfarwyddiaeth gadw dau safle gofal seibiant ar agor, un ar gyfer oedolion ac un ar gyfer plant gyda'r prif bwrpas o gynorthwyo gofalwyr ac osgoi sefyllfaoedd o argyfwng. Yn fwy diweddar, ailagorwyd yr ail safle gofal seibiant i oedolion er mwyn bodloni'r galw cynyddol. Mae'r holl wasanaethau seibiant wedi gallu cynnig atebion pwrpasol i argyfyngau.

Bu'r gwasanaeth seibiant i blant yn gweithio'n agos gyda Hyb Trinity Fields i gefnogi teuluoedd y plant â'r anghenion mwyaf cymhleth. Daeth adborth cadarnhaol iawn i law am effaith gadarnhaol y ddarpariaeth hon ar deuluoedd.

Bu'r safle gofal seibiant i oedolion yn gweithio gyda'r Timau Gwaith Cymdeithasol i nodi'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fethiant gofalydd er mwyn cynnig gofal seibiant dros nos iddynt. Eto, cafwyd adborth ardderchog.

Gwnaeth y Tîm Gofalwyr alwadau rhagweithiol â phawb a oedd ar eu rhestr bostio i sicrhau eu bod nhw'n iawn, gan gysylltu â nhw yn rheolaidd i hyrwyddo gwasanaethau a darparu nifer o weithgareddau ar-lein. Dwy enghraifft o hyn oedd cynnig grantiau bychain ac ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector ynghylch gwasanaethau eraill a oedd ar gael. Datblygwyd gweithgareddau penodol ar gyfer gofalwyr ifanc, e.e. meithrin tîm yn yr awyr agored, cynorthwyo â darparu mynediad at dechnoleg gwybodaeth a chynnal sesiynau ar-lein, fel 'meet and munch'.

Rydym wedi dechrau darparu cyfleoedd cymunedol sesiynol i unigolion a oedd yn arfer mynd i'r canolfannau dydd. Ar hyn o bryd, darperir 620 o oriau o gymorth sesiynol yr wythnos i 138 o unigolion. Roedd yr adborth i'r cyfleoedd newydd hyn yn dda iawn ac rydym yn bwriadu parhau â nhw wrth symud ymlaen.



Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty

Roedd hi'n glir, yn gynnar iawn yn ystod y pandemig, y byddai angen creu lle mewn ysbytai ledled Gwent er mwyn ymdopi â mewnlifiad o bobl â Covid-19. I hwyluso hyn, roedd angen rhyddhau niferoedd sylweddol o bobl o'r ysbyty i leoliadau cymunedol. Wrth i'r pandemig fynd ymlaen, roedd y sefyllfa wedi mynd yn llawer anoddach gan nad oedd modd derbyn pobl i nifer o gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yn yr ardal oherwydd bod preswylwyr neu staff yno wedi cael prawf positif.

Ar ôl hynny, datblygwyd Gweithdrefn Gweithredu Gwasanaethau a Phasbort Rhyddhau o'r Ysbyty ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i alluogi rhyddhau pobl yn ddiogel o'r ysbyty a'u derbyn i gartrefi gofal.

Bu'r gwasanaethau gofal cartref o dan bwysau enfawr yn sgil yr heriau hyn. Roedd y ddarpariaeth fewnol a'n cyd-weithwyr yn y sector annibynnol wedi ymateb yn wych i'r her ac yr ydym yn dal i ryddhau nifer mawr o bobl o'r ysbyty â phhecynnau ailalluogi neu becynnau gofal. Gwelwyd cynnydd o 11% yn y gofal cartref yr ydym yn ei gomisiynu.

Ar hyd y pandemig, canolbwyntiwyd ar gynorthwyo pobl yn y cartref i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae staff Gofal Brys yn y Cartref wedi gweithio gyda nyrsys a meddygon ymateb cyflym i ddarparu cyfleusterau 'ysbyty yn y cartref'.

Yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2019/20, nodwyd nifer o flaenoriaethau i'w cwblhau yn ystod 2020/21. Wrth reswm, mae pandemig Covid-19 wedi amharu ar gynnydd mewn rhai o'r meysydd hyn ond nodir isod fanylion y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn fesul blaenoriaeth:

- **Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i alluogi staff i gael sgysiau gwahanol gyda phobl er mwyn deall y canlyniadau a ddymunir ganddynt yn well.**

I ddechrau, daliwyd yr hyfforddiant yn ôl oherwydd Covid, ond mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2021.

- **Ehangu ethos y Cartref yn Gyntaf i gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful.**

Wedi'i gyllido gan arian pwysau'r gaeaf, bu Therapydd Galwedigaethol yn gweithio ar secondiad ger drws ffrynt yr ysbyty i atal derbyniadau diangen. Gweithiodd hyn yn dda a chrëwyd cysylltiadau da â'r prosiect atal yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

- **Sicrhau cyllid i ehangu'r Cartref yn Gyntaf i gwmpasu Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

Sicrhawyd cyllid ychwanegol o'r Grant Trawsnewid a threfnwyd bod y gwasanaeth ar waith i gyd-fynd ag agoriad yr ysbyty. Cafwyd adborth gwych gan y Bwrdd Iechyd ynghylch effaith y gwasanaeth.

- **Gweithredu'r 4 llwybr y cytunwyd arnynt ar lefel genedlaethol o ran Rhyddhau i Asesu er mwyn gwella canlyniadau i unigolion.**

Mae'r gwaith wedi dechrau ar lefel genedlaethol ac wedi'i ymestyn i gynnwys 5 llwybr, gyda Llwybr Sero yn canolbwyntio ar gymorth cymunedol ac atal derbyniadau diangen. Cesglir y mesurau canlyniadau a'r data i'w meincnodi.

- **Ehangu gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth (MYST) i Gasnewydd er mwyn cwblhau'r datblygiad rhanbarthol.**

Dechreuwyd datblygu gwasanaeth MyST yng Nghasnewydd yn yr hydref 2020 a daeth yn gwbl weithredol ym mis Ionawr 2021.

- **Ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan.**

Cyflwynwyd yr hyfforddiant i'r staff o dipyn i beth yn dilyn lasio'r gweithdrefnau newydd ac mae polisïau a gweithdrefnau presennol yn cael eu hadolygu yn eu tro a'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau angenrheidiol. Mae Arweinwyr Diogelu Caerffili yn parhau i ymgysylltu â'r gweithgor cenedlaethol sy'n dal i gyfarfod.

- **Cyflwyno Adnodd Hunanasesu Diogelu ar gyfer meysydd gwasanaeth.**

Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Adolygiad o drefniadau Diogelu Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru, a chafodd yr adnodd ei ddatblygu a'i roi ar waith ar ddiwedd 2019. Roedd Covid wedi effeithio ar yr adnoddau i gwblhau'r hunanarchwiliad ym mhob maes gwasanaeth yn 2020 ond mae cynlluniau ar waith i ailddechrau'r gwaith cyn diwedd 2021.



- **Ymgorffori Gwasanaeth Cyfarfodydd Teulu yn y Tîm Cymorth Dwys i helpu teuluoedd i nodi atebion i faterion y gallent fod yn eu hwynebu a lleihau nifer y plant sy'n gorfod derbyn gofal.**

Defnyddiwyd cyllid grant i recriwtio tri Chydlynnydd Cyfarfodydd Teulu i gwmpasu tair prif ardal ddaearyddol y Fwrdeistref. Cafodd Covid effaith uniongyrchol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn yn ystod hanner cyntaf 2020/21 ond mae'r gwasanaeth yn ôl ar drywydd cynnydd, mae atgyfeiriadau'n cynyddu ac mae adroddiadau am ganlyniadau cadarnhaol.

- **Hyrwyddo a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl yn eu cymunedau.**

Mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn cysylltu â Gofalu am Gaerffili.

- **Datblygu elfen prosiect iechyd meddwl Cynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru ac ehangu'r ardal beilot o Gasnewydd i Gaerffili.**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cadarnhau cyllid parhaol i ehangu'r cynllun, sy'n ddatblygiad cadarnhaol iawn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cydnabod y gwasanaeth gydag astudiaeth achos a ddefnyddiwyd i hyrwyddo arfer da yn cael sylw mewn gweminarau ac ar raglen Newyddion ITV Cymru.

- **Hyrwyddo aelodaeth Fy Ffrindiau (grŵp cymorth cyfeillgarwch) i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu perthnasoedd a chyfeillgarwch personol.**

Mae Fy Ffrindiau wedi parhau i ddarparu gwasanaeth rhithwir yn ystod y pandemig ac mae adborth gwych wedi dod i law.



- **Datblygu fflatiau Heol y Felin yn llety byw'n annibynnol i oedolion ag anableddau.**

Daliwyd y gwaith adeiladu yn ôl yn ystod y pandemig oherwydd diffyg deunyddiau adeiladu a chytref o fadfallod dŵr cribog.

- **Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth breswyl a rennir i bobl ifanc sy'n wynebu argyfwng.**

Casnewydd sy'n arwain y gwaith i ddatblygu llety lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig i blant mewn argyfwng. Mae'r datblygiad, o'r enw Windmill Farm, yn datblygu'n dda a rhagwelir y bydd yn weithredol erbyn diwedd 2021.

4

Edrych i'r Dyfodol: y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22

Yn ogystal â'r blaenoriaeth a bennwyd ar gyfer 2020/21, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol i'w datblygu yn ystod 2021/22:

- Datblygu System Rheoli Dysgu ar gyfer y Cyngor cyfan i gofnodi pwy sydd wedi derbyn a chwblhau hyfforddiant diogelu
- Parhau â'r cynllun secondiad i staff sy'n ymgymryd â Gradd Gwaith Cymdeithasol.
- Rhoi'r pwyntiau dysgu o Wiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru ar waith
- Moderneiddio'r gwasanaethau dydd
- Symud ymlaen o ran sefydlu'r ddau dŷ newydd pwrpasol ar gyfer gofal seibiant
- Cynllunio ar gyfer diwedd posibl y cynllun cyllid Gofal Integredig



5

Casgliad

Mae datblygiad pandemig y Coronafeirws wedi achosi heriau digynsail i Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n glod mawr i'n holl staff, ynghyd â'n partneriaid yn y sector annibynnol a'r trydydd sector, ein bod ni wedi gallu ymateb mewn modd mor effeithiol ag y gwnaethom. Mae'r misoedd nesaf yn mynd i fod yn heriol, yn ddi-os, wrth i ni orfod cydbwyso parhau i ymateb i'r pandemig a chanolbwyntio ar yr adferiad a dysgu gwersi o'r pandemig.



